# SL(5)376 – Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

## Cefndir a Diben

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth a ganlyn ym maes cyllid llywodraeth leol:

1. Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 (“**Rheoliadau 2005**”); a
2. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013.

Mae'r Rheoliadau yn cywiro diffygion sy’n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3(2) yn diwygio'r diffiniad o “licence exempt operator” a “licence holder” a geir yn Rheoliad 7 o Reoliadau 2005, a hynny er mwyn (yn rhannol) adlewyrchu'r derminoleg ddiwygiedig y bwriedir ei mewnosod yn Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2005 gan Reoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2019 (“**Rheoliadau 2019**”). Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd Rheoliadau 2019 wedi'u gosod gerbron Senedd y DU i'w cymeradwyo, ond nid oeddent eto wedi'u gwneud.

Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau testunol, a'r diwygiadau y bwriedir eu gwneud gan Reoliadau 2019, yn dod i rym ar y diwrnod ymadael. Fodd bynnag, pe na bai Rheoliadau 2019 yn cael eu cymeradwyo gan Senedd y DU, byddai'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau testunol yn achosi amwysedd mewn perthynas â Rheoliadau 2005, gan y byddai'r diffiniadau uchod yn cyfeirio at “railway undertaking licence”, sef term na fydd yn ymddangos yn Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffordd) 2005 tan y bydd Rheoliadau 2019 wedi'u gwneud.

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 3(2) yn diwygio'r diffiniad o “licence exempt operator” a “licence holder” a geir yn Rheoliad 7 o Reoliadau 2005. Fodd bynnag, yn Rheoliad 7(3) o Reoliadau 2005 ceir diffiniad o “EEA State” sydd bellach yn ddiangen o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan Reoliad 3(2) o'r Rheoliadau testunol, ond nad yw wedi'i hepgor gan y Rheoliadau hyn.

## Craffu ar y rhinweddau

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad at ddibenion sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Roedd y Pwyllgor yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn, yn Rhan 2 o'r Atodiad, yn cynnwys datganiadau a wnaed gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, sy'n ymwneud â'r "Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019", yn hytrach na'r Rheoliadau testunol.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau pellach i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

**Pwyntiau Technegol**

**1.Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Nodir y pwynt technegol. Os na chaiff Rheoliadau 2019 eu cymeradwyo a'u gwneud gan Senedd y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r diffiniadau o "licence exempt operator" a "licence holder".

**2.Rheol Sefydlog 21.2 (vi)- ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Nodir y pwynt technegol. Bydd y term "EEA State" yn ddiangen at ddiben rheoliad 7, fodd bynnag, o ganlyniad i'r diwygiad a wneir i reoliad 3(2). Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r cyfeiriad at "EEA State" pan fydd yn hwylus gwneud hynny.

**Pwyntiau o ran Rhinweddau**
**2.Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r camgymeriadau a chaiff y Memorandwm Esboniadol ei dynnu'n ôl a'i gywiro cyn cael ei ailosod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.